

Tasg 1

(Craidd, sbardun 3)

Mae'r bwletin tywydd yn cynnwys gwybodaeth am dywydd rhyfedd – ond mae'r tywydd yma wedi digwydd – mewn gwahanol rannau o'r byd ac ar adegau gwahanol.

- Yn 1857, yng Nghalifornia, Gogledd America, roedd hi'n bwrw fferins neu losin.
- Yn 1877, ym Memphis, Tennessee, Gogledd America, roedd hi'n bwrw nadroedd.
- Yn 1887, ym Montana, Gogledd America, roedd hi'n bwrw eira'n drwm ac roedd un o'r plu eira'n mesur 38 cm ar draws. Yn ôl y sôn, roedd y bluen yn drwchus iawn – tua 20 cm.
- Yn 1896, yn Louisiana, Gogledd America, roedd hi'n bwrw adar.
- Yn 1984, yng Nghrefyco, Powys (ie, yng Nghymru!), roedd hi'n bwrw pysgod.
- Yn 1984, ym Munich, Yr Almaen, roedd storm o gesair mawr – roedden nhw'n mesur rhwng 5 cm a 9.5 cm.
- Yn 1986, ym Mangladesh, roedd hi'n bwrw cesair trwm iawn. Roedd rhai ohonyn nhw'n pwyso tua 1 kilo - sef yr un pwysau â bag o siwgr. Cafodd 90 o bobl eu lladd.
- Ar Hydref 22, 2012, disgynnodd siarc llewpard o'r awyr a glanio ar gwrs golff yng Nghalifornia, Gogledd America - tua 4 milltir o'r môr.

Mae sôn wedi bod am gawodydd o bysgod, brogaod a phob math o bethau. Mae straeon am gawodydd o 'waed' yn disgyn yng Nghymru hyd yn oed – ond efallai bod cysylltiad rhwng y 'gwaed' â thywod sy'n cael ei chwythu i Gymru gan y gwynt.

Tasg 1

(Craidd, sbardun 3)

Atebwch y cwestiynau hyn:

1. Beth achosodd i'r pethau rhyfedd ddisgyn o'r awyr ydych chi'n meddwl? Mae cliw yn y frawddeg olaf yn y darn uchod.
2. Canolbwyntiwch eto ar y darn sy'n sôn am y siarc yn disgyn o'r awyr. Roedd hwn yn ddigwyddiad go iawn. Ar ôl i'r siarc lanio ar y lawnt, cafodd ei lwytho ar gart golff ar unwaith ac aeth un o'r chwaraewyr â fe yn ôl i'r môr, tua 4 milltir i ffwrdd. Ar ôl gorwedd yn y dŵr am ychydig, nofiodd i ffwrdd yn gyflym. Roedd wedi ei anafu ychydig, ond roedd yn ddigon iach i nofio i ffwrdd.

Ysgrifennwch stori fer am ddigwyddiad tebyg, e.e. rydych chi'n cymryd rhan mewn rhyw weithgaredd ac, yn sydyn, mae rhywbeth yn disgyn o'ch blaen chi. Dychmygwch yr olygfa. Dychmygwch sut rydych chi'n teimlo a beth rydych chi'n ei ddweud ac yn ei wneud. Ysgrifennwch y stori.